**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio**

**Dydd Mawrth 10 Mawrth 2020, 12.00 - 13.30pm**

**Ystafell seminar, Y Pierhead, Bae Caerdydd**

**Nodyn Cyfarfod**

| **Mynychwyr** | |
|---|---|
| Mike Hedges AC (Cadeirydd) | Dr Bernadette Fuge, Age Cymru |
| Rhianon Passmore AC | Joshua Hayman, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Ryland Doyle, swyddfa Mike Hedges AC | Carys Henry, Ymddiriedolwr Age Cymru |
| Huw Bendall, Age Cymru, Aelod o'r Fforwm Ymgynghorol | Yr Athro Norah Keating, Athro gwadd i Brifysgol Abertawe |
| Jeff Brattan-Wilson, Gofal Cymdeithasol Cymru | Lianne Lusty, Dehonglydd BSL/Saesneg |
| Stephen Brattan-Wilson, Dehonglydd BSL/Saesneg | David McKinney, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Maria Cheshire-Allen, Prifysgol Abertawe | Michael Phillips, Age Cymru |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Cynrychiolydd Cymru Bywiog |
| Y Cynghorydd Susan Elsmore, CLILC | Yr Athro John Williams, Prifysgol Aberystwyth |
| Alicia Evans, y Groes Goch Brydeinig | |

**Ymddiheuriadau**:

Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru, Phyllis Preece, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro; Senedd Pobl Hŷn Cymru, Christopher Williams, Cynghrair Henoed Cymru.

Ethol Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

Enwebwyd Mike Hedges AC yn Gadeirydd, ac eiliwyd gan Rhianon Passmore AC i barhau i gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio.

Lansio adroddiad Cyfrifiannell Gymunedol Age Cymru

Dosbarthwyd copïau o adroddiad **Canfyddiadau Allweddol y Gyfrifiannell Gymunedol** Age Cymru i gyfranogwyr y cyfarfod. Mae'r adroddiad ar gael yma:

https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/policy/community-calculator-2020/community-calculator---welsh.pdf

Wrth groesawu'r adroddiad, dywedodd Mike Hedges ei bod yn bwysig cofio nad yw pobl hŷn yn un grŵp homogenaidd, ac felly mae angen i gymuned sy'n gyfeillgar i'r henoed adlewyrchu eu gwahanol anghenion. Nododd hefyd fod gan lawer o wledydd diwydiannol ledled y byd boblogaethau sy'n heneiddio, felly gallai'r gwaith roeddem yn ei wneud yma fod yn berthnasol mewn mannau eraill.

Cyflwynodd Llywydd Age Cymru, Dr Bernadette Fuge OBE, yr adroddiad Canfyddiadau Allweddol y Gyfrifiannell Gymunedol i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol - gweler y cyflwyniad atodedig.

Heneiddio'n Dda yng Nghymru – y Cynghorydd Susan Elsmore, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cafwyd ymateb ffurfiol gan y Cynghorydd Susan Elsmore i ganfyddiadau'r adroddiad. Dywedodd y bydd gan ei chydweithwyr ddiddordeb mawr yng nghanfyddiadau'r adroddiad. Croesawodd y ffaith bod llawer o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn byw mewn cymunedau bywiog ond nad oedd yn syndod o gwbl clywed am broblemau yn ymwneud â phalmentydd a diffyg toiledau cyhoeddus.

Roedd y Cynghorydd Elsmore yn arbennig o siomedig bod llawer o ymatebwyr wedi dweud nad oedd ganddynt lais yn y ffordd roedd eu gwasanaethau'n cael eu cynnal, gan ychwanegu ei bod hi'n hanfodol darparu mynediad llawn at wasanaethau cymunedol.

Dywedodd y cynghorydd fod llywodraeth leol yn ymwneud â chefnogi bywyd gwell i gymunedau. Mae ganddi lawer o ysgogiadau i gyflawni newid, ond ni allwn ddianc rhag effeithiau toriadau cyllid – darperir cyfleusterau fel parciau yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol. Bu'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed o dan ein gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae toriadau i'n gwasanaethau bach wedi bod yn sylweddol.

Ond nid ydym wedi sefyll yn ein hunfan ac rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i weithio'n wahanol. Er enghraifft, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith ac yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol hyrwyddo llesiant cymunedau. Ond nid ein cyfrifoldeb ni yw hyn i gyd. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol a chyfrifoldeb i ni fel unigolion yw rhannu ein profiadau. Mae awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd i wella'r gwasanaethau presennol. Er enghraifft, mae'r gronfa gofal integredig yn helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth, gan roi pobl hŷn wrth wraidd eu cynlluniau gofal.

Rydym wedi cyflawni ein Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a helpodd i sefydlu'r fforymau 50+. Yn amlwg nid ydym yn cyrraedd pawb, ond rydym yn gwrando ar

fforymau. Mae gennym Hyrwyddwyr Pobl Hŷn ym mhob awdurdod lleol – y Cynghorydd Elsmore yw'r un ar gyfer Caerdydd – yn annog cydweithwyr i ystyried materion pobl hŷn.

Rydym wedi ymuno â Datganiad Dulyn, ac mae gan bob awdurdod lleol gynllun Heneiddio'n Dda i wella llesiant pobl hŷn. Yng Nghaerdydd, mae ein poblogaeth hŷn sy'n tyfu yn ased, gan wneud cyfraniadau i'r ddinas trwy wirfoddoli.

Ein nod yw cadw pobl hŷn yn annibynnol ac yn byw yn eu cartrefi eu hunain, a dyna pam ein bod ni'n hyrwyddo gwaith cynnar gydag awdurdodau iechyd. Mae angen i bobl hŷn hefyd fod yn ymwybodol o'u hawliau. Neges gyffredinol y Cynghorydd Elsmore yw bod angen i ni i gyd weithio gyda'n gilydd.

<u>Cymunedau sy’n gyfeillgar i oed – David McKinney, Arweinydd Heneiddio'n Dda, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</u>

Edrychodd David ar wyth maes o’r hyn sy’n gyfystyr â chymuned sy’n gyfeillgar i oed yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, a drafodwyd o ran canfyddiadau adroddiad y Gyfrifiannell Gymunedol (gweler y cyflwyniad atodedig).

1 / Gofod awyr agored – mae pobl hŷn yn gallu mynd o gwmpas a theimlo'n ddiogel mewn lleoedd iach, gwyrdd, heb y rhwystrau.

2 / Tai – mae'r mwyafrif o bobl hŷn eisiau aros yn byw lle maen nhw gyda chartrefi fforddiadwy, wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u cynnwys yn eu cymuned.

3 / Trafnidiaeth – nid yw'r ddarpariaeth bresennol ar gael nac yn gyfleus. Mae angen iddi fod yn atebol ac yn ddibynadwy.

4 / Cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd – mae angen mynediad at ofal cartref a gofal preswyl o ansawdd da.

5 / Cyfathrebu a gwybodaeth – nid yw llawer o bobl dros 75 oed ar-lein felly mae angen mynediad at wybodaeth mewn fformatau printiedig ac ar-lein, ac mewn iaith glir.

6 / Cyfranogiad dinesig – unwaith eto, mae angen mwy na chyfathrebu ar-lein; cyflogwyr hyblyg.

7 / Cyfranogiad cymdeithasol – galluogi pobl hŷn i gymryd rhan mewn bywyd diwylliannol gan sicrhau ei fod yn digwydd yn y lle iawn ar yr amser iawn.

8 / Cynhwysiant cymdeithasol a pharch – mae 60 y cant o bobl hŷn yn teimlo nad ydynt yn cael y parch maen nhw'n ei haeddu. Mae angen i ni fod yn gyfeillgar i bawb.

Cwestiynau a thrafodaeth

Dywedodd Mike Hedges fod angen i ni addysgu pobl hŷn y gallant ddefnyddio toiledau mewn adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd. Gall rhai toiledau cyhoeddus fod yn frawychus a denu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Pwysleisiodd yr Athro Williams fod yn rhaid i ni beidio ag anghofio'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal ar gyrion trefi heb fynediad at wasanaethau a lle mae diffyg bysiau gyda'r nos. Mae angen i ni ryngweithio’n well â'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal fel eu bod yn gallu cael mynediad i gymunedau.

Teimlai'r Cynghorydd Elsmore fod angen i ni edrych ar gartrefi trwy gydol oes a chartrefi pwrpasol ar gyfer pobl 50+ oed. Dywedodd Huw Bendall fod angen ystod o opsiynau tai ar gyfer poblogaeth amrywiol, o ran cyflenwad a’r gallu i addasu.

Teimlai Ryland Doyle y gellid hwyluso trafnidiaeth gymunedol yn fwy fel dewis arall yn lle bysiau traddodiadol, ac amlygodd gynlluniau siopa a thrafnidiaeth addas i gadeiriau olwyn yng nghanol trefi.

Cytunodd Dr Fuge fod angen i ni rannu arfer da. Nododd y Cynghorydd Elsmore fod enghreifftiau anhygoel o waith rhwng cenedlaethau yn cael ei wneud ledled Cymru. Soniodd Dr Fuge fod y Bont-faen yn dref sy'n gyfeillgar i ddementia a bod grwpiau o wirfoddolwyr yn ymweld â'r rhai mewn cartrefi gofal sy'n byw gyda dementia.

Dywedodd yr Athro Keating, gan ddefnyddio ei phrofiadau o Ganada, mai llywodraeth leol yw 'lle mae'r weithred'. Dywedodd y Cynghorydd Elsmore fod yn rhaid i lywodraethau lleol fod yn greadigol a chryfhau ac edrych tuag allan ynglŷn ag ymgysylltu.